Rydym yn falch o gyhoeddi y bydd Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl yn lansio yng Nghymru yng ngwanwyn 2023. A hithau'n cael ei chefnogi gan Sefydliad KPMG a Llywodraeth Cymru, mae'r rhaglen yn cynnwys cyfle i wella deilliannau'n aruthrol i deuluoedd sydd â phlant ar gyrion gofal. Byddwn yn ceisio cynnal darpariaeth ymhellach na'r cyfnod arian grant, a dangos model a allai ehangu'n gyflym ar gyfer rhagor o gyflwyno fesul cam yng Nghymru a'r tu hwnt.

Mae'r Rhwydwaith Maethu yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb yn awr gan y 22 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Byddwn yn nodi dau awdurdod fel partner i dreialu Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl fel rhan o'n rhaglen arddangos.

## Gofynion cyfranogi

Bydd ymrwymiad gan y tîm maethu, timau diogelu a chymorth i deuluoedd, gofalwyr maeth, rhieni a'r plant a'r bobl ifanc eu hunain yn hanfodol os yw'r rhaglen am fod o wir werth.

Bydd ar yr awdurdod lleol angen ystyried yr ymrwymiad o ran adnoddau i gynorthwyo'r elfennau a ganlyn yn y rhaglen:

- Trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu;
- Cyfathrebu â rhanddeiliaid lleol;
- Recriwtio gofalwyr maeth fel Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd;
- Cyfranogiad teulu, plant a phobl ifanc;
- Cymorth ymarferol ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau hyfforddi a datblygu, e.e., darparu mannau cyfarfod.

Yn bwysicach na dim, bydd hi'n ofynnol hefyd i'r awdurdod lleol ddarparu ymarferwr gwaith cymdeithasol profiadol i ymgymryd â'r rôl Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol, a heb lwyth achosion arall heblaw am yr achos peilot.

**Sut i gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb**

Cwblhewch y Datganiad o Ddiddordeb a thaflen ddata ar gyfer eich awdurdod lleol, os gwelwch yn dda. Dylid dychwelyd y ddwy ddogfen i wales@fostering.net erbyn dydd Llun, y 5ed o Ragfyr, 2022 fan bellaf.

Os hoffech fwy o wybodaeth am y rhaglen ei hun, neu am y broses datganiad o ddiddordeb, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.